Llŷn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 11 • 2017

www.ahne-llyn-aonb.org

Llygad Llŷn

Cylchlythyr AHNE Llŷn

Yn y rhifyn hŵn

Cylchdeithiau Beics Llŷn

Gwella Ffynnon Aelrhiw

Crwydro Nant Gwrtheyrn

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Cystadleuaeth

ardal arbennig

Cynnwys

Map o AHNE Llŷn 3
Cylchdeithiau Beics Llŷn 4
Datblygu Llwybr yr Arfordir 5
Clirio ym Mhorth Neigwl 5
Gwella Ffynnon Aelrhiw 6
Gwella Amgylchedd yr AHNE 7
Crwydro Nant Gwrtheyrn 8-9
Teithiau Cerdded 10
Digwyddiadau 2017 11
Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy 12-14
Tre'r Ceiri 15
Cystadleuaeth 16

Manylion cyswllt

Gwasanaeth AHNE Llŷn
Adran Cefn Gwlad a Mynediad
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

Ffôn 01758 704 155 | 01758 704 176

E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan www.ahne-llyn-aonb.org

Cyhoeddwyd gan
Uned AHNE Llŷn

Argraffwyd gan
Wasg Carreg Gwalch,
Llwyndyrys a Llanrwst

Lluniau
Hawlfraint Cyngor Gwynedd
(oni nodir yn wahanol)

Llun clawr
Yr Eifl o Aberdesach

Croeso i rifyn 2017 o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn.

Pwrpas y newyddlen yw darparu ychydig o gefndir am yr ardal a'r dynodiad arbennig hwn ac adrodd ar waith diweddar tîm AHNE Llŷn – yn ogystal â gwaith partneriaid eraill sy'n gweithio er lles yr ardal.

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)
Mae AHNE yn golygu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Llŷn yn un o bump AHNE sydd wedi eu dynodi yng Nghymru, o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Yr ardaloedd eraill yw Penrhyn Gŵyr, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a Dyffryn Gwy. Prif bwrpas y dynodiad yw gwarchod, cynnal a meithrin harddwch naturiol yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn bywyd gwyllt a phlanhigion, yn ogystal â nodweddion daearegol a thirlun yr ardal. Mae'n bwysig hefyd bod nodweddion archeolegol, olion hanesyddol a nodweddion pensaernïol yr ardal yn cael eu gwarchod. Am fwy o wybodaeth am yr holl Ardaloedd o Harddwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ewch i wefan Cymdeithas yr AHNE ar www.landscapesforlife.org.uk

Penrhyn Llŷn
Prif sail dynodi rhan o Lŷn yn AHNE yn ôl yn 1957 oedd yr arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd. Mae oddeutu chwarter y penrhyn, cyfanswm o 15,500 hectar, yn yr ardal ddynodedig. Mae'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys Foel Gron a Garn Fadryn. Er mai'r tirlun a'r arfordir yw prif sail yr harddwch naturiol mae llawer o rinweddau eraill yn perthyn i'r ardal yn cynnwys y bywyd gwyllt amrywiol, olion hanesyddol, y môr a'i donnau, y diwylliant unigryw a'r iaith Gymraeg sy'n dal i ffynnu.

Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr lleol, aelodau o Gynghorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn y cyfarfodydd, a gynhelir tua tair gwaith y flwyddyn, bydd yr aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol perthnasol, yn cyfrannau at y gwaith o baratoi Cynllun Rheoli a chael gwybod am waith sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r AHNE. Hefyd mae Is-Bwyllgor (a elwir yn Banel Grantiau) yn penderfynu ar geisiadau am grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

Tîm AHNE Llŷn

Mae dau aelod o staff yn gweithio yn yr Uned:

Bleddyn Prys Jones
Swyddog AHNE Llŷn

Fel Swyddog AHNE Llŷn mae Bleddyn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar weithgareddau creiddiol yr AHNE, materion cenedlaethol, a'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli.

Elin Wyn Hughes
Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn

Fel Swyddog Prosiectau mae Elin yn arwain ar brosiectau yn deillio o'r Cynllun Rheoli ac yn gweinyddu grant y Gronfa Datblygu Cynliadwy. Hefyd, bydd yn trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am AHNE Llŷn a chynorthwyo i ddiweddaru'r Cynllun Rheoli.

Manylion Cyswllt
Gwasanaeth AHNE Llŷn, Swyddfa Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA
Ffôn 01758 704 155 / 01758 704 176 **E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru **Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.org

map AHNE Llŷn

Allwedd – Key

Rheilfordd	Railways
Rhwydwaith Beicio	Cycle Routes
Cenedlaethol/Rhanbarthol Llwybrau Beicio	National Regional Cycle Network
Llwybrau Arfordir Llŷn	Llŷn Coastal Path
Traethau	Beaches
Arfordir Treftadaeth	Heritage Coast
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	Areas of Outstanding Natural Beauty
SAC	SAC
Canolfan Croeso	Tourist Information Centre
CADW – Safle Hanesyddol	CADW – Historic Site
Abaty/Eglwys	Abbey/Church
Golygfan (hygyrch â char)	Viewpoint (accesible by car)
Maes Parcio	Car Park
Amgueddfa/Oriel	Museum/Gallery
Safle hynafol	Ancient site
Ymddinedolaeth Genedlaethol	National Trust

Cylchdeithiau Beics Llŷn

Ddechrau Mawrth eleni lansiwyd Cylchdeithiau Beics Llŷn yn Sarn Mellteyrn gyda thaflen wybodaeth newydd. Mae pedair cylchdaith yn rhan o'r pecyn – tair ym Mhen Llŷn ac un yn ardal Eifionydd. Roedd y teithiau wedi eu datblygu yn wreiddiol yn ôl yn 2003/4 gan Croeso Cymru fel rhan o gynllun Gwyliau Beicio Cymru ond nid oeddent yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo ers tro bellach.

Gan fod beicio yn weithgaredd llesol ac yn ffordd cynaliadwy o deithio penderfynwyd defnyddio cyfran o arian prosiect y Gwasanaeth AHNE i ail-lansio a hyrwyddo'r cylchdeithiau beics yn 2016/17.

Datblygwyd y prosiect ar y cyd hefo Sustrans, sydd yn elusen dros deithio cynaliadwy. Bu i Sustrans gynnal arolwg o'r teithiau a'r arwyddion i weld lle oedd diffygion a gwneud awgrymiadau o ran ail-lansio'r cylchdeithiau. Yn dilyn hynny archebwyd arwyddion newydd a threfnwyd i'w gosod er mwyn dangos yn glir ffordd oedd y cylchdeithiau yn mynd (yn y ddau gyfeiriad). Hefyd paratowyd taflen newydd, eto ar y cyd hefo Sustrans, i hyrwyddo'r teithiau ymysg pobol leol ac ymwelwyr.

Mae'r daflen yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y teithiau (yn cynnwys pellter), map a gwybodaeth ddefnyddiol am gyfleusterau ar y daith. Hefyd mae gwybodaeth am gysylltiadau lleol defnyddiol a chyngor ar sut i deithio yn ofalus.

Y gobaith yw y bydd y cylchdeithiau yn annog pobol a phlant i deithio ar feic – sydd yn ffordd wych i gadw'n heini, arbed arian – a mwynhau harddwch yr ardal!

Os am gopi o'r daflen newydd, gallwch gael rhai mewn nifer o fannau yn lleol fel Plas Heli, Nant Gwrtheyrn a Phorth y Swnt yn Aberdaron. Hefyd gellir cael copi o'r daflen mewn ffurf PDF ar safle we'r AHNE neu gellir cysylltu â'r Gwasanaeth AHNE am gopi drwy'r post.

Gobeithio bydd y daflen yn boblogaidd gyda pobol leol ac ymwelwyr ac y bydd modd ei rhannu trwy fusnesau twristiaeth lleol megis llety Gwely a Brecwast, tai gosod hunan-ddarpar a meysydd carafanio/gwersylla.

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE Llŷn ac Elin Hughes, Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

Dyma fanylion cysylltu os hoffech fwy o wybodaeth neu gopïau o'r daflen:

Ffôn 01758 704 176/ 155
E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Datblygu Llwybr yr Arfordir

Fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu a gwella Llwybr yr Arfordir o gwmpas Penrhyn Llŷn, mae rhannau newydd wedi agor yn ddiweddar yng nghyffiniau Aberdaron a Rhiw.

Bellach, mae'r Llwybr wedi ei gwblhau rhwng Aberdaron a Phorth Ysgo a'r rhan arall rhwng Treheli yn y Rhiw a Phorth Ysgo o'r cyfeiriad arall. Mae'r gwaith yn parhau i greu Llwybr rhwng Penarfynydd a Phorth Ysgo.

Mae'r gwaith hwn wedi agor rhan o'r arfordir heb fynediad arno cyn hyn ac yn ôl Rhys Roberts, Swyddog Prosiect Llwybr yr Arfordir gyda Chyngor Gwynedd,

"Mae'r Llwybr yn cynnig golygfeydd gwych o Aberdaron, Enlli a Bae Ceredigion".

Ariannwyd yr holl waith fel rhan o gynllun Llwybr Arfordir Cymru, trwy law Llywodraeth Cymru.

Ceir copi o'r map sy'n dangos trywydd Llwybr yr Arfordir yn Llŷn ar y wefan hon **www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

Porth Ysgo, Maen Gwenonwy, Ynysoedd Gwylanod ac Enlli yn y pellter.

Clirio ym Mhorth Neigwl

Bu gwaith clirio yn digwydd unwaith eto ym Mhorth Neigwl ar Fawrth 19eg, gyda Cadwch Gymru'n Daclus yn trefnu diwrnod glanhau llwyddiannus.

Roedd 25 o wirfoddolwyr yn bresennol a 10 o fyfyrwyr Prifysgol Bangor a dyma enghraifft unwaith eto o gydweithio i warchod a gwella ein hamgylchedd arbennig.

Bydd diwrnodau o'r fath yn cael eu cynnal yn rheolaidd mewn gwahanol leoliadau yn Llŷn ac mae croeso i unrhyw un ymuno a chynorthwyo .

Gellir cysylltu gyda Lee Oliver (Swyddog Prosiect Gwynedd) am fwy o wybodaeth – **lee.oliver@keepwalestidy.cymru** neu cadwch lygaid ar ein gwefan ble byddwn yn hysbysebu digwyddiadau – **www.ahne-llyn-aonb.org**

Ffynnon Aelrhiw

Ffynnon Aelrhiw

Prosiect Mynediad



Mae Ffynnon Aelrhiw wedi ei lleoli ar ochr mynydd Rhiw ac yn un ffynhonnau hanesyddol a sanctaidd yr ardal. Yn y gorffennol roedd pobol yn ymweld â hi gan obeithio cael eu gwella o wahanol anhwylderau ac yn ôl llên gwerin, roedd ei dŵr yn llesol at afiechydon y croen. Rhestrwyd Ffynnon Aelrhiw fel adeilad rhestredig Gradd II gan Cadw oherwydd ei phwysigrwydd.

Tan yn ddiweddar, gwelwyd gor-dyfiant trwchus yn y ffynnon ac roedd mewn cyflwr pur wael – er fod y Gwasanaeth AHNE bod yn clirio ar sawl achlysur.

Eleni, cynhaliwyd prosiect newydd i'w chynnal a'i chadw, ei hamddiffyn rhag stoc ac i hwyluso mynediad ymwelwyr ati. Gyda nawdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau gwella mynediad, bu contractwyr lleol yn agor ffoes i'r dŵr gael rhedeg yn well o'r safle. Buont hefyd yn barbio a thacluso'r ffynnon ei hun, adnewyddu y rheiliau sy'n ei gwarchod rhag stoc a chreu llwybr yn arwain o lwybr cyhoeddus i fyny tuag ati. Y gobaith yw bydd y Ffynnon yn cael ei hamddiffyn am y blynyddoedd i ddod ac y bydd nifer fawr o ymwelwyr yn cael y cyfle i'w mwynhau a'i gwerthfawrogi.

Mae'r ffynnon wedi ei lleoli mewn safle poblogaidd, gan ei bod yn rhan o'r un gyfres o gylchdeithiau â'n taith yn ardal Nant Gwrtheyrn. (gweler tudalen 8-9) Man cychwyn a gorffen y daith yw maes parcio Plas yn Rhiw ac mae'n daith braf tu hwnt gyda llawer o nodweddion diddorol i'w gweld a Phorth Neigwl islaw.

Gwella Amgylchedd yr AHNE

Dros y blynyddoedd mae Gwasanaeth AHNE Llŷn wedi gweithredu sawl prosiect yn ymwneud ag arwyddion ffyrdd a cherrig milltir. Erbyn hyn mae gan bron bob pentref yn yr ardal arwydd du a gwyn traddodiadol ac mae nifer o hen arwyddbyst wedi eu hadfer.

Hefyd fe gomisiynwyd astudiaeth i gymeriad ffyrdd gwledig lleol. Roedd yr adroddiad yn tanlinellu pwysigrwydd cadw'r arwyddion traddodiadol ond hefyd yn dod i'r casgliad fod rhai arwyddion yn amharu ar gymeriad ffyrdd gwledig. Roedd arwyddion di-angen mewn rhai lleoliadau, arwyddion blêr mewn lleoliadau eraill ac roedd rhai polion heb arwyddion o gwbl arnynt.

Ddiwedd 2016, yn dilyn trafodaeth gyda'r Adran Priffyrdd a Traffig, penderfynwyd defnyddio cyfran o arian prosiect y Gwasanaeth i dynnu rhai arwyddion blêr yn yr AHNE. Fel cam cyntaf cytunwyd i wared arwyddion "matrix" (rhai sy'n fflachio) o dri lleoliad sef pentref Edern, ar gyrion Sarn Mellteyrn a phentref Botwnnog. Roedd yr arwyddion hyn wedi eu gosod dro yn ôl ond bellach ddim yn gweithio ac wedi mynd i edrych yn flêr. Isod gwelir lluniau cyn ac ar ôl tynnu arwyddion Sarn ac Edern sy'n dangos yn glir y budd gweledol o gael gwared â'r arwyddion blêr.

Gobaith y Gwasanaeth AHNE yw y gellir gwneud gwaith pellach yn y maes hwn yn y dyfodol.

crwydro nant gwrtheyrn

Crwydro Arfordir Llŷn

Cylchdaith Nant Gwrtheyrn

Nant Gwrtheyrn oedd lleoliad un o'n teithiau cerdded yn ystod 2016. Cafwyd taith ddifyr gyda'r man cyfarfod yn y maes parcio uwchlaw'r Nant.

Erbyn heddiw, Canolfan Iaith Genedlaethol a Chanolfan Dreftadaeth yw Nant Gwrtheyrn ac mae pobl o bob cwr yn dod yma i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg. Yn ogystal, mae'r safle yn atyniad poblogaidd a delfrydol ar gyfer pob math o gynadleddau a phriodasau.

Ar ddechrau'r 19eg Ganrif, roedd yn leoliad pur wahanol. Doedd ond tri theulu yn byw yn y Nant ac mae adfail un o'r tyddynnod, sef Tŷ Uchaf i'w weld yn glir islaw wrth i chi gerdded i lawr. Daeth tro ar fyd gyda datblygiad dinasoedd megis Lerpwl, Maenceinion a Phenbedw ar raddfa helaeth iawn. Roedd galw mawr ar y pryd am ddeunyddiau adeiladu a sets ithfaen ar gyfer creu lonydd cadarn ac agorwyd tair chwarel sef Cae'r Nant, Porth y Nant a Charreg y Llam. Mudodd pobl o bob cwr i weithio yma ac erbyn cyfrifiad 1886, roedd poblogaeth y Nant wedi tyfu yn sylweddol i dros 200 o bobl.

Roedd tai teras wedi eu hadeiladu ar gyfer y gweithwyr hynny yn ogystal â siop a chapel ac mae'r holl adeiladau erbyn heddiw wedi eu haddasu yn arbennig o daclus a chyfforddus ar gyfer gwahanol ddibenion ymwelwyr. Mae'r tai wedi eu trawsnewid yn lefydd aros modern, yr hen siop bellach yw'r brif swyddfa ac mae'r hen Gapel Seilo yn Ganolfan Dreftadaeth ac mae ynddi gyfoeth o wybodaeth ac arddangosfeydd diddorol am hanes yr ardal a datblygiad y safle hyd at heddiw.

Ar ôl cerdded am tua chwarter awr o'r maes parcio, roeddem wedi cyrraedd y pentref ac aeth ein taith ymlaen i lawr i gyfeiriad Llwybr yr Arfordir heibio i Gaffi Meinir, sydd yn safle hwylus iawn gyda chyfleusterau ardderchog. Mae enw'r caffi yn gysylltiedig gydag un o chwedlau mwyaf trist ac enwog Cymru, sef chwedl Rhys a Meinir.

Ymlaen â ni i gyfeiriad y traeth gan ymuno â Llwybr yr Arfordir ym Mhorth y Nant, ble mae olion diddorol o'r cyfnod pan oedd y chwareli yn eu hanterth i'w gweld yma ac acw. Cyn hir, roeddem yn dringo Gallt y Bwlch ac yna i goedwig oedd yn hafan gysgodol ar ddiwrnod eithaf gwyntog. Dyma goedwig dderw naturiol a hynafol sydd wedi ei dynodi yn

Gallt y Bwlch a Charreg y Llam o Borth y Nant.

Chwarel Cae'r Nant a Hen Ffermdy Tŷ Uchaf.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae hi'n bur anarferol oherwydd ei lleoliad arfordirol agored ac mae dylanwad amlwg y gwynt yn chwipio a chrebachu'r coed.

Ymlaen drwy'r goedwig ac ymhen ychydig roeddem yn edrych draw at Garreg y Llam. Dyma graig enfawr sy'n trochi ei thraed yn y môr islaw gydag olion o oes aur y chwareli i'w weld yn amlwg arni. Safle arall yw hwn sydd wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae hynny ar sail ei fod yn un o safleoedd nythu pwysicaf Gogledd Cymru ar gyfer adar y môr gan gynnwys y Frân Goesgoch. Dywedir fod enw'r graig wedi tarddu o chwedl y Brenin Gwrtheyrn ei hun. Brenin o'r 5ed Ganrif o Gaint oedd Gwrtheyrn mae'n debyg, a ddihangodd i'r Nant ar ôl bradychu ei bobl. Mae'r chwedl yn honni ei fod wedi llamu dros y graig i'r môr wrth gael ei erlyn.

Er fod Llwybr yr Arfordir yn parhau heibio Carreg y Llam i gyfeiriad Pistyll a Nefyn, roedd ein cylchdaith yn ymuno â lôn drol sy'n arwain i fyny tuag at y briffordd rhwng Pistyll a Llithfaen. Oddi ar y lôn honno, mae llwybr yn parhau i fyny drwy'r caeau yn ôl i gyfeiriad y maes parcio. Ceir golygfeydd panoramig o Lŷn a thu hwnt oddi yma.

Cylchdaith oedd hon oddeutu 2½ awr ac os dymunwch roi cynnig arni, tybiwn bod angen lefel gymedrol o ffitrwydd a dylid cymryd gofal ar fannau eithaf serth ar Allt y Bwlch.

Mae hi'n un o gyfres o gylchdeithiau a ddatblygwyd yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd gyda nawdd Cronfa Cymunedau'r Arfordir (CCA) ac mae arwyddion ar hyd y daith.

Ceir gwybodaeth bellach a mapiau o'r holl gylchdeithiau yn Llŷn ac yn ehangach yng Ngwynedd ar y wefan hon – **www.ymweldageryri.info**

LLUNIAU: GARETH JENKINS

crwydro arfordir Llŷn

Crwydro Arfordir Llŷn

Blwyddyn Chwedlau Cymru

Mae 2017 yn Flwyddyn Chwedlau Cymru – ac i gyd-fynd â hynny, bydd ein teithiau cerdded yn dathlu rhai o chwedlau arbennig yr ardal hon.

Felly dewch gyda ni ar grwydr a chlywed chwedlau a hanesion hudolus (a gwyrthiol ambell dro!), cymeriadau megis Dic Aberdaron, Cilmyn Droed-Ddu, Huw Andro, a rhai o'r Seintiau niferus sydd wedi gadael ei farc. Bydd cyfle hefyd i glywed am Geltiaid dewr Tre'r Ceiri, a chewch wybod beth yw cysylltiad yr ardal gyda'r Brenin Arthur ac ambell gainc o'r Mabinogi.

Dydd Sadwrn 16eg Medi 2017
Trefor a Chlynnog Fawr
(mynyddoedd Bwlch Mawr, Gyrn Goch, Gyrn Ddu a Moel Penllechog)

Dydd Sadwrn 23ain Medi 2017
Aberdaron

Dydd Sadwrn 30ain Medi 2017
Tudweiliog

Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr

Porth Cychod

Eglwys Hywyn Sant, Aberdaron

Os oes awydd ymuno â ni, bydd angen cysylltu o flaen llaw i gadw eich lle ac i dderbyn manylion pellach:

Ffôn 01758 704 155 | 01758 704 176

E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Be sy'n digwydd yn 2017

Yn ychwanegol at deithiau cerdded AHNE Llŷn, mae rhywbeth at ddant pawb yn digwydd gydol y flwyddyn, boed yn Sioe Amaethyddol, Ras Aredig neu Eisteddfod. Dyma flas ar rai ohonynt. Bydd manylion pellach ar y wefan hon – **www.ahne-llyn-aonb.org**

Dydd Llun, Mai 1af –
Sioe Amaethyddol Nefyn

Dydd Sadwrn Mai 6ed –
Ras Aredig Sarn a'r Cylch
(Fferm Meillionydd Bach, Y Rhiw)

Dydd Sadwrn, Awst 12fed –
Sioe Amaethyddol Tudweiliog

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Dydd Sadwrn, Mehefin 17eg –
Blas y Môr Porthdinllaen
Blasu bwyd môr lleol, cerddoriaeth, padl-fyrddio a gweithgareddau plant

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 1af –
Blas y Môr Aberdaron.
Blasu bwyd môr lleol, cerddoriaeth, padl-fyrddio a gweithgareddau plant

Dydd Gwener, Awst 4ydd –
Diwrnod Hwyl ar Draeth Porthor

Dydd Mercher, Awst 9fed –
Diwrnod Hwyl ar Draeth Llanbedrog

Amgueddfa Forwrol a Chanolfan Dreftadaeth Llŷn

Cyfres o sgyrsiau difyr yn yr Amgueddfa, Stryd y Mynach, Nefyn. Pris mynediad yn £3.50 yn cynnwys te/coffi a bisgedi. Ym mhob sgwrs cyfrwng Cymraeg, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Nos Iau, Awst 3ydd – Croesi'r Iwerydd yn Ghost Rider (Nerys Kimberley a Ken Fitzpatrick) am 7.30 y.h.

Nos Iau, Awst 10fed – Archaeological Dig at Meillionydd (Raimund Karl a Katharina Moeller) am 7.30 y.h.

Nos Iau, Awst 17eg – Oes 'na le i hogyn fynd yn llongwr? (Dr Huw Roberts) am 7.30 y.h.

Nos Iau, Awst 24ain – The Wreck of the Royal Charter ((Peter Day) am 7.30 y.h.

Nos Iau, Awst 31ain – Lord Nelson a Fi : Y Garwriaeth (Meinir Pierce Jones) am 7.30 y.h.

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Gronfa hon yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau sy'n gwneud lles i'r amgylchedd, yr economi, y diwylliant neu'r gymuned mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae pwyslais ar brosiectau arloesol a rhai sy'n datblygu a phrofi ffyrdd newydd o fyw yn fwy cynaliadwy. Gallwn gyfrannu hyd at 75% o'ch costau.
Dyma flas ar rai prosiectau a gefnogwyd yn ystod y misoedd diwethaf yma yn Llŷn....

Ffynhonnau Llŷn

Gyda chefnogaeth y Gronfa, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn arwain prosiect yn ddiweddar sy'n ymwneud â nodweddion hanesyddol pwysig iawn yn Llŷn.

Mae'r ardal yn frith o ffynhonnau sy'n gysylltiedig â chanrifoedd maith o hanes. Ceir chwedlau rhyfeddol ynghlwm â sawl un, ac mae cofnodion diddorol am wahanol ddefodau ac ofergoelion yn ymwneud â nhw. Mae rhai mewn cyflwr eithaf da, ac wedi cael eu hadfer yn ystod y blynyddoedd diweddar a'u dathlu. Er hynny, mae sawl un unai wedi mynd yn angof, mewn cyflwr gwael neu wedi eu difrodi. Golyga hyn fod rhan fawr o'n treftadaeth mewn perygl o gael ei golli.

Bu'r prosiect hwn yn archwilio ffynhonnau'r ardal, asesu eu cyflwr a chofnodi gwybodaeth gyfredol amdanynt.

Cynhyrchwyd stôr o wybodaeth ddefnyddiol a chofnod difyr ar gyfer y dyfodol. Mae trafodaethau eisoes ynghylch prosiect pellach fydd yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil ac ymgymryd â gwaith gwella a dehongli ar ffynhonnau penodol.

Ffynnon Dudwen

Ffynnon Sarff

Cerrig Milltir Llanbedrog

Nodwedd hanesyddol arall sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig yr ardal yw'r cerrig milltir. Bu Cyngor Cymuned Llanbedrog yn ddiwyd yn arwain prosiect i adnewyddu rhai cerrig oedd â'u cyflwr wedi dirywio ac hefyd yn ail-osod carreg newydd ymhle roedd yr un flaenorol wedi ei difrodi. Dyma enghraifft o brosiect sydd yn cyfrannu yn fawr at gynnal a chadw nodweddion pwysig ein treftadaeth.

Hendragarreg

Mae prosiect cyffrous iawn ar y gweill yn Nhrefor, yn ymwneud ag un o adeiladau hanesyddol y pentref. Agorwyd Eglwys Sant Siôr yn 1881. Fe'i dyluniwyd gan ŵr o'r enw George Farren, a fu'n beiriannydd a rheolwr yn chwarel yr Eifl ac o'r herwydd mae'n adeilad trawiadol iawn sydd o ddiddordeb arbennig ac wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd II).

Er ei bod bellach ar gau, mae gan drigolion y pentref weledigaeth glir a chyffrous ar ei chyfer. Bellach, gelwir yr adeilad yn Hendragarreg, ac mae Pwyllgor Hendragarreg wrthi'n ymchwilio i sut i'w hadfywio ac chael y defnydd gorau ohoni er lles y gymuned.

Mae ymgynghori helaeth eisoes wedi digwydd gyda'r gymuned, ac ar hyn o bryd mae'r Gronfa yn cefnogi prosiect sy'n comisiynu Astudiaeth Dichonolrwydd gan bensaer, fydd yn cynnig asesiad annibynnol a phroffesiynol o fwriad y gymuned, o ran yr Eglwys ei hun a'r fro o'i chwmpas.



Sgyrsiau Hanes Lleol, Bryncroes

Cynhaliwyd cyfres o sgyrsiau diddorol ar ddechrau'r flwyddyn yng Nghanolfan Bryncroes, gyda nawdd y Gronfa. Mae Pwyllgor y Ganolfan ers sawl blwyddyn bellach yn trefnu cyfres ddifyr o sgyrsiau am hanes ac archeoleg lleol gan roi cyfle i bobl gymdeithasu a dysgu mwy am eu hamgylchedd hanesyddol – a hynny yn rhad ac am ddim! Ymysg y siaradwyr gwadd eleni, roedd John Dilwyn Williams yn cyflwyno sgyrsiau am Stâd Glynllifon a hanes Plasdy Bodegroes, Efailnewydd. Bu Elfed Gruffydd yn sôn am effaith y Rhyfeloedd Byd ar Benrhyn Llŷn a bu Tom David yn adrodd hanes yr hen Siop Bella' yn Sarn Mellteyrn.

Bu sgwrs arall dan ofal Glyn Roberts, a fu'n cyflwyno Llythyrau Penygraig, sef cyfres o lythyrau a anfonwyd yn ystod yr 19fed Ganrif gan Thomas ac Elin Jones o dalaith Efrog Newydd, ond yn wreiddiol o Rydlios. Llythyrau oeddynt at frawd Thomas, oedd yn dal i fyw ym mhlwyf Bodferin a cheir cofnod diddorol ynddynt o fywyd newydd yn yr America. Hanes Stâd Meillionydd oedd testun sgwrs arall ganddo.

John Dilwyn Williams, Glyn Roberts ac Elin Wyn Hughes.

Adfywio'r Ardd, Plas Glyn y Weddw

Ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog, bu gwaith clirio yn digwydd mewn mannau o gwmpas y Plasdy oedd wedi tyfu'n wyllt. Ar lain o dir gerllaw y ffordd sy'n arwain at y Plas, cliriwyd y llawryf a'r drain a phlannwyd planhigion amrywiol newydd gan gynnwys camelias – planhigyn oedd yn nodwedd amlwg o ardd y Plas yn yr hen ddyddiau.

Cliriwyd hefyd ran o'r ardd gyferbyn â'r caffi ac mae planhigion sy'n ffurfio gorchudd daear gan gynnwys blodau gwyllt cynhenid wedi eu plannu yno.

Dyma enghraifft o brosiect sydd wedi gwella mannau gwyllt mewn safleoedd amlwg. Mae'r Plas yn atyniad hynod boblogaidd gyda Llwybr yr Arfordir gerllaw. Bydd y safleoedd hefyd yn hafan ddelfrydol i fywyd gwyllt.

Giatiau Haearn Traddodiadol

Yr hen ...

Yn y rhifyn diwethaf o Llygad Llŷn, cafwyd hanes yr hen giatiau haearn traddodiadol sydd i'w gweld yma ac acw. Maent yn cyfrannu at gymeriad arbennig Gwlad Llŷn ond bellach yn prinhau.
Mae llawer iawn ohonynt wedi eu disodli gan giatiau tiwb wedi eu galfaneiddio, nad ydynt yn meddu ar steil na chymeriad yr hen giatiau traddodiadol. O'r rheiny sydd wedi goroesi, mae sawl un mewn cyflwr eithaf gwael, wedi plygu neu rydu – eraill wedi eu tynnu yn sgil lledu adwyon ar gyfer peiriannau modern.

Dyma enghraifft o brosiect diweddar gan dirfeddiannwr yn mhlwyf Llanengan ble gosodwyd giât haearn newydd oedd wedi ei chreu gan grefftwr lleol. Gyda chyfraniad y Gronfa, roedd y costau i'r tirfeddiannwr yn sylweddol is. Roedd y giât flaenorol mewn cyflwr gwael fel y gwelir o'r lluniau, ac mae gwelliant amlwg wedi digwydd mewn llecyn poblogaidd iawn.

Os oes tirfeddianwyr â'u bryd ar ymgymryd â phrosiect cyffelyb ar ddaliadau amaethyddol – yna cysylltwch gyda ni i drafod sut gall y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyfrannu at eich costau. Bydd gofyn i'r lleoliad fod mewn man cyhoeddus (hynny yw ar ochor lôn neu lwybr).

... a'r newydd

Chwedl a Chreu, Teithiau Bws a Chrwydro Tafarndai Pwllheli

Cafwyd cais eleni i'r Gronfa ar gyfer prosiect gan Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, Llanystumdwy. Bwriad y Ganolfan oedd cynnal cyfres o weithgareddau er mwyn rhoi profiadau celfyddydol i'r mynychwyr ac addysgu am nodweddion arbennig yr ardal megis ein hanes, diwylliant a'n bywyd gwyllt.

Cynhaliwyd taith fws gyda Myrddin ap Dafydd a Twm Elias yn ardal Nefyn a bu Mair Tomos Ifans a Bethan Wyn Jones yn arwain taith yn ardal Aberdesach. Ymwelwyd ag amryw o safleoedd hanesyddol megis Coetan Arthur ac Eglwys y Santes Fair, Penllech a chlywyd sawl chwedl a ffeithiau difyr.

Trefnwyd hefyd noson lenyddol yn rhai o dafarndai hynafol Pwllheli. Bu Twm Morys a Gwyneth Glyn yn rhoi gwybod mwy am hanes y Whitehall a Phenlan Fawr drwy gerdd a chân.

Yn ogystal, cynhaliwyd gweithdai yn Ysgolion Llanaelhaearn a Phentreuchaf ble rhoddwyd cyfle i'r plant gael eu hysbrydoli gan chwedlau lleol a chreu gwaith celf yn seiliedig arnynt.

Os am ragor o wybodaeth am y Gronfa, cysylltwch gyda'r Swyddog Prosiectau am sgwrs. Gallwn drafod unrhyw brosiect a'ch cynorthwyo gyda'ch ffurflen gais.

Ffôn 01758 704 176

Tre'r Ceiri

Un o amcanion y Gwasanaeth AHNE yw codi ymwybyddiaeth am safleoedd hanesyddol pwysig yn lleol. Yn y blynyddoedd diweddar mae paneli gwybodaeth wedi eu gosod ar y cyd â Phartneriaeth Tirlun Llŷn ger rhai o'r bryngaerau mwyaf amlwg a phoblogaidd (Garn Boduan, Garn Fadryn a Thre'r Ceiri).

Hefyd gosodwyd paneli gwybodaeth yn rhai o hen borthladdoedd Llŷn megis Porth Colmon a Phorthor. Er yn llefydd poblogaidd yn ystod y tymor gwyliau y dyddiau hyn, does dim cymhariaeth â bwrlwm y gorffennol pan oeddynt yn borthladdoedd masnachu pwysig.

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar brosiect i godi ymwybyddiaeth a hwyluso mynediad at fryngaer Tre'r Ceiri. Mae hon yn fryngaer hanesyddol eithriadol o bwysig oherwydd ei maint ac am fod cymaint o olion hanesyddol i'w gweld. Mae'r gaer yn dyddio'n ôl i Oes yr Haearn ac yn ôl haneswyr ac archeolegwyr, roedd tua 400 o bobl yn byw yno ar un cyfnod. Gellir gweld olion y muriau allanol sylweddol a gweddillion llawer o'r tai crynion. Dros y blynyddoedd, mae gwaith archeolegol wedi arwain at ganfyddiadau diddorol yn cynnwys fflintiau, crochenwaith a thlysau.

Mae peth gwaith dehongli wedi ei wneud eisoes yn sgil paneli gwybodaeth a osodwyd uwchlaw Nant Gwrtheyrn a Llanaelhaearn (y mannau ble gellir ymuno â llwybrau i'r copa). Hefyd mae cylchdaith, sy'n rhan o gyfres a lansiwyd gan Gyngor Gwynedd yn ddiweddar, yn arwain at y gaer. I gyd-fynd gyda hyn penderfynwyd fod angen rhywbeth y gallai pobol ei gario hefo nhw i'r gaer i gael mwy o wybodaeth am hanes y safle, ei ffurf a darganfyddiadau.

Felly comisiynwyd cwmni lleol i ddylunio a chyhoeddi taflen wybodaeth. Mae'r daflen yn cynnwys map ac yn dangos y llwybrau at y fryngaer a bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ei hanes cyffrous a'i phwysigrwydd.

Bydd copïau o'r daflen yn cael ei dosbarthu i'r saith atyniadau twristiaeth lleol sydd yn rhan o'r #EcoAmgueddfa a nifer o leoliadau lleol eraill. Yn ogystal, mae copi electroneg ar gael ar wefan yr AHNE. Gobeithiwn yn fawr y bydd y daflen yn ychwanegu at brofiad ymwelwyr i'r safle ac yn eu cynorthwyo i'w mwynhau, ei gwerthfawrogi a'i pharchu at y dyfodol.

cystadleuaeth

"Pen Llŷn i Mi"

Cystadleuaeth

Mae ein cystadleuaeth ffotograffiaeth yn ôl eto yn 2017.
Y thema eleni yw "Pen Llŷn i Mi".
Cewch yrru hyd at ddau lun atom drwy'r e-bost:
ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Gwobrau .....

1af – Mordaith i bedwar i Ynys Enlli

2il – Tocyn Anrheg (£50) Siop Tonnau, Pwllheli

3ydd – Tocyn Anrheg (£30) Caffi Meinir, Nant Gwrtheyrn

Dyddiad Cau
Dydd Gwener, Hydref 6ed 2017

I weld y rheolau cystadlu,
edrychwch ar ein gwefan **www.ahne-llyn-aonb.org**